**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**RHESTR TALIADAU AELODAU 2026/27**

Yn dilyn trosglwyddo swyddogaethau cydnabyddiaeth ariannol o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y Comisiwn), mae'r Comisiwn bellach yn pennu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer taliadau i Aelodau Awdurdodau Tân ac Achub Cymru. Pennir Rhestr Taliadau Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â phenderfyniadau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

1 Mae'r Rhestr hon yn ymdrin â blwyddyn 2026-27.

2 Yn y Rhestr hon:

- ystyr "yr Awdurdod" ac "ATA" yw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru;
- ystyr "Aelod" yw Aelod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru;
- ystyr "Aelod annibynnol/cyfetholedig" yw person, ac eithrio Aelod o'r Awdurdod, sydd wedi'i benodi i Bwyllgor Safonau'r Awdurdod (yn unol â Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001) o dan Adran 53, Deddf Llywodraeth Leol 2000;
- mae'r "Grŵp Gweithredol" yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, y Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol a'r Prif Swyddogion Cynorthwyol;
- ystyr "Penderfyniadau" yw'r penderfyniadau a wneir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol;
- ystyr "y Flwyddyn" yw'r 12 mis sy'n gorffen ar 31 Mawrth.

**3 Cyflog Sylfaenol**

3.1 Bydd Cyflog Sylfaenol yn cael ei dalu i holl Aelodau etholedig yr Awdurdod.

3.2 Yn unol â phenderfyniadau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, bydd cyfradd y Cyflog Sylfaenol yn cael ei hadolygu'n flynyddol fel y penderfynir gan y Comisiwn.

3.3 Pan fo Aelod yn dechrau neu'n gorffen eu cyfnod yn y swydd ar ddyddiad sydd ddim ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, cânt hawlio Cyflog Sylfaenol pro-rata.

3.4 Ni ellir talu mwy nag un Cyflog Sylfaenol i unrhyw Aelod o'r Awdurdod.

3.5 Os bydd Aelod o'r Awdurdod ar Gyflog Uwch Lefel 1 (Arweinydd/Dirprwy Arweinydd) neu lefel 2 (Aelod Gweithredol) o fewn cyngor cyfansoddol, ni chânt dderbyn cyflog sylfaenol gan unrhyw awdurdod parc cenedlaethol neu unrhyw awdurdod tân ac achub yr enwebwyd hwy iddynt.

**4 Cyflogau Uwch**

4.1 Bydd aelodau sy'n gweithio mewn swyddi penodol yn cael Cyflog Uwch.

4.2 Yn unol â phenderfyniadau'r Comisiwn, bydd cyfraddau'r Cyflogau Uwch yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel y penderfynir yn Adroddiad Blynyddol neu Atodol Cydnabyddiaeth Ariannol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

4.3 Dim ond un Cyflog Uwch neu Gyflog Dinesig y gellir ei dalu i unrhyw Aelod o'r Awdurdod

4.4 Ni ellir talu Cyflog Uwch a Chyflog Dinesig i Aelod o'r Awdurdod.

4.5 Mae'r holl Gyflogau Uwch a Chyflogau Dinesig yn cynnwys y Cyflog Sylfaenol.

4.6 Ni chaiff Cyflog Uwch ei dalu i fwy na nifer yr aelodau a bennir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn ei Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ac ni chaiff fod yn fwy na hanner cyfanswm aelodaeth yr awdurdod, ac eithrio er mwyn cynnwys deiliad swydd dros dro ar Gyflog Uwch sy'n darparu trefniadau dros dro ar gyfer absenoldeb teuluol deiliad penodedig y swydd.

4.7 Os bydd Aelod o'r Awdurdod ar Gyflog Uwch Lefel 1 (Arweinydd/Dirprwy Arweinydd) neu lefel 2 (Aelod Gweithredol) o fewn cyngor cyfansoddol, ni chânt dderbyn cyflog uwch gan unrhyw awdurdod parc cenedlaethol neu unrhyw awdurdod tân ac achub yr enwebwyd hwy iddynt.

4.8 Pan fo Aelod yn dechrau neu'n gorffen eu cyfnod ar Gyflog Uwch ar ddyddiad sydd ddim ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd eu hawl i'r Cyflog yn pro-rata.

## 5 Ymwrthodiad

5.1 Gall Aelod wrthod cyfran o'u Cyflog Sylfaenol a/neu Gyflog Uwch neu ei wrthod yn gyfan gwbl. I ymwrthod, rhaid ysgrifennu at Glerc yr Awdurdod Tân ac Achub gan nodi ar ba ddyddiad y bydd yr ymwrthodiad yn dechrau. Gellir dirymu hysbysiad o ymwrthodiad unrhyw bryd trwy roi rhybudd ysgrifenedig arall i'r Clerc. Ni all dirymiad ddod i rym cyn dyddiad yr hysbysiad pellach.

## 6 Atal Aelodau Dros Dro

6.1 Pan fo Aelod o'r Awdurdod yn cael eu hatal dros dro neu'n cael eu hatal yn rhannol rhag cyflawni eu cyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod, yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, bydd y gyfran o'r Cyflog Sylfaenol a fyddai'n daladwy iddynt dros gyfnod yr ataliad yn cael ei dal yn ôl gan yr Awdurdod (Adran 155 (1) o'r Mesur).

6.2 Pan fo Aelod sy'n cael Cyflog Uwch yn cael eu hatal dros dro neu'n cael eu hatal yn rhannol rhag bod yn Aelod o'r Awdurdod, yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, ni chaiff yr Awdurdod dalu Cyflog Uwch i'r Aelod yng nghyfnod yr ataliad (Adran 155 (1) o'r Mesur). Os yw'r ataliad rhannol yn ymwneud yn benodol ag elfen cyfrifoldeb y taliad yn unig, gall yr Aelod gadw eu Cyflog Sylfaenol.

**7 Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffioedd**

7.1 Pan delir unrhyw gyflog, lwfans neu ffi i Aelod o'r Awdurdod, neu i Aelod Cyfetholedig, mewn perthynas â chyfnod pan fo'r Aelod dan sylw un ai:

(a) wedi'u hatal dros dro neu'n rhannol rhag cyflawni eu dyletswyddau neu eu cyfrifoldebau fel Aelod/Aelod Cyfetholedig, yn unol â Rhan 3 o Ddeddf 2000 neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno;
(b) yn peidio â bod yn Aelod o'r Awdurdod neu'n Aelod Cyfetholedig; neu
(c) heb hawl i dderbyn cyflog, lwfans neu ffi mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw am unrhyw reswm arall,

Bydd yr Awdurdod yn mynnu bod y rhan o'r lwfans sy'n ymwneud â'r cyfnod dan sylw yn cael ei had-dalu.

7.2 Telir cyflogau sylfaenol a chyflogau uwch mewn rhandaliadau misol; telir ffioedd, lwfansau gofal, a chostau teithio a chynhaliaeth ar ffurf ôl-ddyledion. Mae pob taliad yn ddarostyngedig i Dreth Incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol, pan fo hynny'n berthnasol.

**8 Taliadau i Aelodau**

8.1 Telir cyflog sylfaenol yr ATA i bob Aelod a enwir, fel y dangosir yn Atodiad 1.

**9 Tâl Cadeirydd yr ATA, y Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio**

9.1 Bydd yr Aelodau a enwir sydd yn gwasanaethu fel Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cael y cyflogau uwch a ddangosir yn Atodiad 1.

**10 Ffi Aelodau Annibynnol/Cyfetholedig**

10.1 Bydd aelodau annibynnol/cyfetholedig y Pwyllgor Safonau sydd wedi'u henwi yn cael ffi fel y nodir yn Atodiad 1.

10.2 Mae taliadau ar gyfer aelodau cyfetholedig yn cael eu capio ar ffigwr sy'n cyfateb i'r tâl am bedwar diwrnod llawn y flwyddyn. Diffinnir cyfarfod hanner diwrnod fel un sy'n para hyd at bedair awr. Diffinnir cyfarfod diwrnod llawn fel un sy'n para mwy na phedair awr.

10.3 Gall aelodau cyfetholedig gynnwys y cyfnod a dreuliant yn paratoi cyn cyfarfodydd yn yr hawliadau a wnânt, o fewn rheswm, a bydd y Clerc/Swyddog Monitro yn pennu'r cyfnod hwn cyn y cyfarfod.

10.4 Gall aelodau cyfetholedig gynnwys yr amser a dreuliant yn teithio i gyfarfod ac oddi yno yn eu hawliadau am daliadau (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).

10.5 Bydd y Clerc/Swyddog Monitro yn penderfynu a yw cyfarfod a drefnir yn un diwrnod llawn neu beidio cyn i'r cyfarfod gael ei gynnal, a bydd y ffi yn cael ei thalu ar sail y penderfyniad hwnnw hyd yn oed os na fydd y cyfarfod yn para pedair awr.

10.6 Mae’r cyfarfodydd y telir ffioedd ar eu cyfer yn cynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen), rhag-gyfarfodydd gyda swyddogion, hyfforddiant a chynadleddau, neu unrhyw gyfarfodydd ffurfiol eraill y bydd angen i aelodau cyfetholedig fynd iddynt.

10.7 Telir y ffi ar ffurf ôl-ddyledion ar ôl dyddiad y cyfarfod. Mae ffioedd yn ddarostyngedig i Dreth Incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol, pan fo hynny'n berthnasol.

## 11 Lwfans Gofal

11.1 Bydd yr ATA yn cyfrannu tuag at gostau gofal angenrheidiol gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol ar gyfer:

a) gofalu am ddibynnydd sydd o dan 16 oed, neu
b) blentyn neu oedolyn sydd, fel arfer, yn byw gyda'r aelod fel rhan o'u teulu ac na ellir eu gadael heb oruchwyliaeth ac
c) anghenion cymorth personol yr Aelod pan nad yw cymorth ac/neu gost unrhyw anghenion ychwanegol ar gael neu pan nad ydynt eisoes yn cael eu bodloni'n uniongyrchol gan yr Awdurdod

11.2 Mae'r swm y gellir ei hawlio wedi'i nodi isod. Ni ellir talu costau gofal i rywun sy’n rhannu aelwyd â’r aelod

a) Telir costau gofal ffurfiol (sydd wedi’i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru) pan roddir tystiolaeth ohonynt.
b) Telir costau gofal anffurfiol (anghofrestredig) hyd at uchafswm sy'n cyfateb i Gyflog Byw Gwirioneddol y DU ar yr adeg pan ysgwyddwyd y costau.

11.3 Dim ond pan fydd aelod yn mynd i gostau ychwanegol wrth sicrhau y gallant gyflawni eu dyletswyddau cymeradwy y gwneir ad-daliadau. Os oes gan Aelod neu Aelod Cyfetholedig fwy nag un dibynnydd, gall yr Aelod hawlio mwy nag un lwfans, ar yr amod y gall yr Aelod ddangos bod angen gwneud trefniadau ar wahân ar gyfer gofal.

11.4 Gall Aelodau Cymwys hawlio ad-daliadau ar gyfer costau gofal gwirioneddol sydd â derbynneb, hyd at uchafswm nad yw’n fwy na’r hyn a bennir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, fel y nodir yn Atodiad 1. Dylid gwneud pob hawliad am ad-daliad ar gyfer costau gofal yn ysgrifenedig i'r Swyddog Cyswllt Aelodau, gan nodi’r amseroedd, y dyddiadau, a’r rhesymau dros hawlio. Rhaid cyflwyno derbynebau er mwyn hawlio ad-daliadau ar gyfer trefniadau gofal ffurfiol neu anffurfiol.

## 12 Teithio a Chynhaliaeth

12.1 Telir costau teithio a chynhaliaeth pan fydd Aelod neu Aelod Annibynnol/Cyfetholedig yn cyflawni eu dyletswyddau swyddogol, fel y nodir yn Atodiad 3, fel y caiff ei ddiwygio gan yr Awdurdod o bryd i'w gilydd.

12.2 Bydd y symiau y gall Aelodau neu Aelodau Annibynnol/Cyfetholedig eu hawlio ar gyfer teithio a chynhaliaeth yn cyd-fynd â'r graddfeydd a bennir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, fel y nodir yn Atodiad 2. Er mwyn hawlio cynhaliaeth, rhaid i Aelodau fod oddi cartref am bum awr neu fwy, yn unol â rheolau CThEF.

12.3 Mae cyfradd cynhaliaeth o £28 dros gyfnod o 24 awr ar gael, gan gynnwys brecwast pan nad yw'n cael ei gynnig fel rhan o'r llety dros nos. Ad-daliadau o'r costau gwirioneddol a ysgwyddir wrth gyflawni dyletswyddau swyddogol fydd y rhain, a bydd angen cyflwyno derbynebau â phob eitem wedi'i rhestru'n unigol. Rhaid i hawliadau fod yn rhesymol a rhaid iddynt gael eu gwneud o fewn y terfynau amser a nodir yn Atodiad 2. Pan fydd prydau bwyd yn cael eu darparu, ni thelir costau cynhaliaeth.

12.4 Rhaid cyflwyno derbynebau TAW cywir ar gyfer treuliau, gan gynnwys costau parcio, er mwyn i'r Awdurdod allu dilysu hawliadau ac adennill TAW. Dylai aelodau ofyn am dderbynebau o'r fath a'u hatodi i'r ffurflen hawliadau. Oni chyflwynir derbynneb, mae'n bosibl na fydd hawliad yn cael ei dalu ac/neu na fydd yr elfen TAW yn cael ei had-dalu.

12.5 Bydd yr Awdurdod yn ad-dalu gwir gost tocynnau trên dosbarth arferol neu'r dewis amgen rhataf.

12.6 Pan fyddant angen teithio ar drên, dylai'r Aelodau gysylltu â'r Swyddog Cyswllt Aelodau yn gyntaf, a byddan nhw'n prynu tocyn am y pris mwyaf economaidd, gan ddefnyddio cardiau disgownt o wahanol fathau pryd bynnag y bo modd. Pan fydd rhaid i Aelodau brynu eu tocynnau trên eu hunain, dylent gyflwyno eu derbynneb neu docyn wrth hawlio ad-daliad, a dylent ddefnyddio cardiau disgownt o wahanol fathau pryd bynnag y bo modd.

12.7 Anogir teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer teithiau hir, ond gellir defnyddio car preifat os oes rhaid. Bydd yr Awdurdod yn talu i'r Aelodau y gyfradd fesul milltir briodol ar gyfer ceir, sydd wedi'i nodi yn Atodiad 2, ond dim ond hyd at y gost o wneud y daith gyfatebol ar drên dosbarth arferol, oni fydd aelod o'r Grŵp Gweithredol wedi cymeradwyo'r defnydd o gar ar gyfer y daith gyfan.

12.8 Gellir hawlio costau tacsi pan fo'r daith yn un FRYS neu pan nad oes trafnidiaeth gyhoeddus addas ar gael. Dylid cyflwyno derbynebau.

## 13 Taliadau / Terfyn Amser ar gyfer Hawliadau

13.1 Ymgorfforir taliadau Cyflogau Sylfaenol ac Uwch o fewn y system gyflogres fisol, a chânt eu talu'n awtomatig ar y 18fed dydd o bob mis, neu ar y diwrnod bancio agosaf, a hynny trwy wneud trosglwyddiad credyd banc heb i Aelodau orfod gwneud unrhyw beth.

13.2 Bydd y lwfansau teithio a chynhaliaeth, ynghyd â lwfansau gofal (lle bo'n briodol), a hawliwyd am y mis blaenorol yn cael eu hychwanegu at y taliadau hyn. Dylid cyflwyno hawliadau i'r Swyddog Cyswllt Aelodau erbyn y 1af o bob mis gan ddefnyddio'r ffurflen briodol.

13.3 Rhaid cyflwyno hawliadau o fewn tri mis i ddiwedd y mis dan sylw. Gall y Trysorydd, ar ôl ymgynghori â Chadeirydd yr Awdurdod, dderbyn hawliad hwyr am reswm da a gwneud y taliadau cysylltiedig.

**14 Hawliadau Deuol**

14.1 Pan fo Aelod o'r Awdurdod mewn sefyllfa lle gallant hawlio lwfans fel aelod o Awdurdod arall hefyd, ni chânt hawlio unrhyw lwfans, gan gynnwys lwfans gofal neu gostau teithio neu gynhaliaeth, gan fwy nag un Awdurdod ar gyfer yr un dyletswyddau.

14.2 Rhaid i Aelodau sy'n cyflawni dyletswyddau eraill i Awdurdod Lleol ar yr un diwrnod sicrhau bod amseroedd teithio a theithiau, ynghyd â lwfansau gofal (lle bo'n briodol), yn cael eu rhannu rhwng yr awdurdodau sy'n talu mewn ffordd resymol.

**15 Hawliad am Ran o'r Flwyddyn**

15.1 Bydd darpariaethau'r paragraff hwn yn rheoleiddio hawliau priodol Aelod i gael y cyflog sylfaenol neu'r cyflog uwch os, yn ystod y flwyddyn, y bydd:

(a) Y Rhestr hon yn cael ei diwygio; neu
(b) Bydd y person dan sylw'n dod yn Aelod neu'n Aelod Annibynnol/Cyfetholedig, neu'n peidio â bod yn un; neu
(c) Bydd Aelod yn dod yn Gadeirydd neu'n Ddirprwy Gadeirydd, neu'n peidio â bod yn un.

15.2 Pan fo paragraff 15.1 yn berthnasol, bydd yr hawl i gael lwfansau yn cael ei haddasu'n ddyddiol yn unol â'r Rheoliadau.

**16 Gweinyddu**

16.1 Bydd Trysorydd yr Awdurdod, ar ran yr Awdurdod, yn cadw cofnod o'r holl daliadau a wneir o dan y Rhestr hon, gan nodi swm pob taliad ynghyd ag enw'r derbynnydd a natur y taliad.

16.2 Bydd y cofnod hwn ar gael trwy'r adeg, o fewn rheswm, er mwyn i etholwyr llywodraeth leol yr awdurdodau cyfansoddol ei archwilio, a hynny'n rhad ac am ddim. Rhoddir copïau ar gais, ond bydd y Trysorydd yn gosod ffi resymol am hyn.

16.3 Gwneir trefniadau blynyddol i gyhoeddi rhestr o'r taliadau a wnaed i Aelodau yn y flwyddyn ariannol flaenorol, a hynny ar gyfer Cyflogau Sylfaenol a Chyflogau Uwch, y ffioedd dyddiol a dalwyd i aelodau annibynnol/cyfetholedig, Lwfansau Gofal, a chostau Teithio a Chynhaliaeth.

**17 Datganiadau Pellach**

17.1 Cedwir cofnodion o bresenoldeb yr Aelodau yn y Pencadlys Tân ac Achub.

## 18 Pensiynau

18.1 Bydd yr Awdurdod yn galluogi ei Aelodau cymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## 19 Cydymffurfiaeth

19.1 Yn unol â phenderfyniadau'r Comisiwn, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â gofynion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru mewn perthynas â monitro a chyhoeddi'r taliadau a wneir i Aelodau ac i Aelodau Cyfetholedig.

**Atgoffir Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig y gall hawliadau am gostau gael eu harchwilio yn fewnol ac allanol.**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Gwasanaethau Aelodau, Pencadlys Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy, LL17 0JJ. Rhif ffôn: 01745 535250.

## Hawl i gael Cyflog Sylfaenol

Telir Cyflog Sylfaenol o **£2,968 y flwyddyn** i aelodau cyffredin yr ATA ar gyfer 2026–27.

| **Cynghorydd** | |
|---|---|
| Bryan Apsley | John I Jones |
| Carol Beard | Charlie McCoubrey |
| Tina Claydon | Gwynfor Owen |
| Paul Cunningham | Arwyn Roberts |
| Ann Davies | Austin Roberts |
| Jeffrey Evans | Rondo Roberts |
| Chrissy Gee | Paul Rogers |
| Ian Hodge | Dale Selvester |
| Alan Hughes | Gareth Williams |
| Chris Hughes | Siân Williams |
| John B Hughes | Antony Wren |
| Gareth R Jones | |

## Hawl i gael Cyflog Uwch

Bydd Cyflog Uwch, sy'n cynnwys y Cyflog Sylfaenol, yn cael ei dalu i'r rhai sydd â'r swyddi canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub | Dylan Rees | **£13,485 y flwyddyn** |
| Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub | Mark Young | **£7,175 y flwyddyn** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio | Gareth Sandilands | **£7,175 y flwyddyn** |

Nid aethpwyd uwchlaw'r uchafswm Cyflogau Uwch a osodwyd ar gyfer yr Awdurdod.

## Hawl i gael Ffi Aelod Cyfetholedig

Mae'r ffioedd canlynol yn daladwy ar gyfer aelodau annibynnol/cyfetholedig y Pwyllgor Safonau:

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | **£268 am 4 awr a throsodd (£134 hyd at 4 awr)** |
| Aelodau Eraill | **£210 am 4 awr a throsodd (£105 hyd at 4 awr)** |

Hyd at uchafswm taliad cyffredinol sy'n cyfateb i ffi pedwar diwrnod y flwyddyn.

## Ad-dalu Costau Gofal

Gall pob aelod hawlio hyd at £429 y mis ar ôl cyflwyno derbynebau.

**Lwfans Teithio a Chynhaliaeth**

**1. Car**

| | **Y filltir** |
|---|---|
| Lwfans milltiroedd – hyd at 10,000 o filltiroedd | **55c** |
| Lwfans milltiroedd – dros 10,000 o filltiroedd | **25c** |
| Lwfans teithwyr (rhaid i deithiwr fod wedi cael ei gludo cyn y gellir hawlio hwn) | **5c** |
| | |
| **Beic Modur** – lwfans milltiroedd | **24c** |
| **Beic** – lwfans milltiroedd | **20c** |

Gellir hawlio costau ychwanegol am gostau parcio gwirioneddol

**2. Trafnidiaeth Gyhoeddus**

Gall Aelodau hawlio:

**a) Trên**

- Pris y tocyn dosbarth arferol rhataf y gellir ei gael yn ddiffwdan
- Costau cadw sedd a gadael bagiau
- Costau cyrraedd a gadael yr orsaf
- Tocyn dosbarth cyntaf arbennig pan fo'r gost yn rhesymol o'i chymharu â phris tocyn dosbarth arferol.

**b) Bws**

- Pris y tocyn priodol
- Costau cadw sedd a gadael bagiau

**3. Tacsi**

Gall Aelodau hawlio'r gost, ynghyd â thip rhesymol, pan fo angen teithio AR FRYS, neu pan nad oes gwasanaeth bws ar gael yn rhwydd.

**4. Cynhaliaeth**

Gellir hawlio hyd at uchafswm o £28 dros gyfnod o 24 awr; nodir y terfynau amser isod:

**a) Brecwast (pan nad oes angen aros dros nos)**

Yn daladwy pan fo'r person dan sylw oddi cartref am o leiaf 5 awr, cyn 11.00am.

**b) Cinio**

Yn daladwy pan fo'r person dan sylw oddi cartref am o leiaf 5 awr, gan gynnwys y cyfnod cyfan rhwng 12:00pm a 2:00pm.

**c) Swper**

Yn daladwy pan fo'r person dan sylw oddi cartref am o leiaf 5 awr, ac yn gorffen ar ôl 7:00pm.

*Telir yr uchod ar yr amod bod yr hawliadau'n rhesymol a bod derbynebau wedi'u hatodi i'r ffurflenni.*

**d) Dros nos**

Gellir hawlio pan fo absenoldeb person dros nos o'u preswylfa arferol yn fwy na 24 awr. Dim ond y Swyddog Cyswllt Aelodau gaiff drefnu llety dros nos. Dyma'r uchafsymiau a delir ar gyfer gwely a brecwast:

| | |
|---|---|
| Ymweliadau â Llundain | **£200** |
| Mannau eraill | **£ 95** |
| Aros gyda pherthnasau/ffrindiau | **£ 30** |

**5. SUT I HAWLIO A PHRYD**

Dylid cyflwyno hawliadau am lwfansau teithio a chynhaliaeth i'r Swyddog Cyswllt Aelodau, ac mae'n rhaid iddyn nhw fod yn gysylltiedig â'r dyletswyddau cymeradwy a gyflawnir (gweler
Atodlen 1 am ragor o fanylion). Telir hawliadau yn uniongyrchol i gyfrifon banc yr Aelodau yn
fisol.

Rhaid hawlio gan ddefnyddio ffurflen hawlio Lwfansau Aelodau, a gellir cael copïau ohonynt gan Wasanaethau'r Aelodau.

Dylid cwblhau ffurflen hawlio ar gyfer pob mis calendr pan ysgwyddwyd costau, a dylid eu hanfon i'r Swyddog Cyswllt Aelodau erbyn y **1af o'r mis canlynol, ar yr hwyraf, er mwyn sicrhau taliad y mis hwnnw.** Rhaid cyflwyno hawliadau o fewn tri mis i ddiwedd y mis dan sylw. Gall y Trysorydd, ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd, dderbyn hawliad hwyr am reswm da, a gwneud y taliadau cysylltiedig.

Y cyfeiriad llawn ar gyfer danfon ffurflenni hawlio wedi'u cwblhau yw:

**Gwasanaethau Aelodau**
**Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd**
**Cymru, Pencadlys y Gwasanaeth Tân**
**ac Achub, Ffordd Salesbury**
**Parc Busnes Llanelwy,**
**LLANELWY**
**Sir Ddinbych**
**LL17 0JJ**

**members.services@northwalesfire.gov.wales**

**ATODIAD 3**

**BUSNES SWYDDOGOL**

At ddibenion Rhestr Taliadau'r Awdurdod, ystyrir bod y canlynol yn fusnes swyddogol:

- Cyfarfodydd yr Awdurdod.
- Cyfarfodydd Pwyllgorau, Panelau a Gweithgorau'r Awdurdod.
- Unrhyw gyfarfod arall a gynullir gan yr Awdurdod (neu gan y Cadeirydd neu’r Dirprwy Gadeirydd mewn achosion o frys) ac y gwahoddir Aelodau iddo.
- Cyfarfodydd rhwng y Cadeirydd a/neu Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeiryddion a/neu Ddirprwy Gadeiryddion Pwyllgorau a/neu Swyddogion yr Awdurdod neu'r Gwasanaeth neu awdurdodau tân neu wasanaethau eraill i drafod busnes yr Awdurdod, gan gynnwys ar gyfer agor tendrau.
- Mynd i ddigwyddiad GTAGC, pan fo gofyn penodol i Aelodau fod yno.
- Pan fo’r Aelodau penodedig yn mynd i gyfarfodydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cymdeithas Llywodraeth Leol (gan gynnwys cyfarfodydd llawn a Grwpiau Polisi).
- Cyfarfodydd a drefnir gan yr Awdurdod gyda Gweinidogion a/neu swyddogion y Llywodraeth ar fusnes yr Awdurdod.
- Pan fo’r Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd neu unrhyw Aelod arall a awdurdodir yn benodol gan yr Awdurdod yn mynd i Gynhadledd Dân Flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cymdeithas Llywodraeth Leol.
- Mynd i unrhyw gyfarfodydd, grwpiau, seminarau, cynadleddau, cyrsiau neu ymweliadau eraill ar faterion yr Awdurdod, yn amodol ar gael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr Awdurdod (neu, pan fo brys, gan y Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd) i fynd i ddigwyddiad allanol neu unigol.
- Cyfarfodydd cyrff (ac eithrio'r rhai a nodir uchod) lle mae’r Awdurdod wedi dewis penodi neu enwebu.
- Cyflawni unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwywyd ymlaen llaw gan yr Awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd o fath a gymeradwyir yn yr un modd, at ddibenion, neu mewn cysylltiad â, chyflawni swyddogaethau'r Awdurdod.
- Cyfarfodydd a drefnwyd ymlaen llaw, trwy’r Swyddog Cyswllt Aelodau, i’r Aelodau ymweld â gorsafoedd tân o fewn y Sir neu'r Fwrdeistref Sirol lle maent yn Aelod.